MARC, SIARL (1720 - 1795), T mawr, Bryncroes, Ll n, pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a phrydydd

Enw: Siarl Marc
Dyddiad geni: 1720
Dyddiad marw: 1795
Plentyn: Mary Thomas (née Charles)
Plentyn: Lewis Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a phrydydd
Cartref: T mawr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Richard Thomas

Ef oedd y pennaf o gryn lawer o ' gynghorwyr ' ei wlad wedi ei dröedigaeth tua'r flwyddyn 1741. Tybir mai saer coed oedd wrth ei grefft. Symudodd ei gartref deirgwaith neu bedair cyn myned i fyw yn fferm T Mawr, Bryncroes. Dyma a ddywedir amdano gan Robert Jones, Rhoslan yn *Drych yr Amseroedd* : 'Yr oedd yn r o synwyrau cryfion, ac yn gadarn yn wir athrawiaeth, a'i ddoniau yn eglur i draddodi ei genadwri. Yr oedd yn barchus yn ei ardal, yn dderbyniol gan yr eglwysi.' Nid rhyfedd oedd i'r fath un ennill iddo'i hun le amlwg ym marn ei gydnabod. Er ei natur hynaws cafodd brofi erledigaeth, ond daliodd yn gadarn a diysgog i bregethu ac arolygu'r seiadau yng ngwlad Ll n. Daeth y T Mawr yn fan cyfarfod i'r crefyddwyr, ac yn y flwyddyn 1752 fe adeiladwyd ar dir gerllaw y ffermdy y capel cyntaf i'r Methodistiaid yn Sir Gaernarfon. Bu am rai blynyddoedd yn niwedd ei oes yn ddall. Bu farw 17 Mai 1795 yn 75 mlwydd oed. Am ei waith fel emynydd gweler J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid*.

Awdur

Y Parchedig Richard Thomas, (1872 - 1950)

Ffynonellau

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Llanrwst 1841), 184

Y Drysorfa, 1901, 394

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, xxi, t. 46

T. Richards, *Ty Mawr Llyn-Deucanmlwydd Hanes yr Achos* (1948), 1948, 13

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, xxvi, 65-7

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734395

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu